# Diploma Lefel 1 UAL mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau (Amser Llawn)

Mae Diploma Lefel 1 UAL mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau yn gwrs amser llawn yn y Drenewydd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno ennill profiad a sgiliau mewn cynhyrchu Celf, Dylunio a'r Cyfryngau Creadigol. Ar ddiwedd y cwrs blwyddyn, gall dysgwyr symud ymlaen i Ddiploma Lefel 2 mewn Cynhyrchu a Thechnoleg Cyfryngau Creadigol, Celf a Dylunio neu'r Celfyddydau Perfformio.
Mae'r maes llafur yn cynnig ystod eang o weithgareddau ymarferol ac academaidd, gan gynnwys dysgu sgiliau celf traddodiadol, Darlunio, ffotograffiaeth, animeiddio, cynhyrchu fideo, sgiliau golygu a dylunio. Mae creadigrwydd a dychymyg yn allweddol, tra bod sgiliau dadansoddi da yn bwysig i wireddu eich syniadau cynhyrchiol.
Os ydych chi wedi ymrwymo i astudiaeth bellach neu yrfa mewn cynhyrchu cyfryngol a'r celfyddydau creadigol, yna dyma'r cwrs i chi. Rydym yn yr adran Creadigol, Gweledol a Pherfformio (CVP).

## Gofynion Mynediad

Cyfweliad cyn cofrestru. 2 TGAU gradd 2 neu uwch, neu gymhwyster lefel 1 priodol.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae dysgwyr llwyddiannus yn cael cyfle i ymuno â chyrsiau Diploma/Diploma Estynedig Lefel 3 yn y Cyfryngau Creadigol, neu Gelf a Dylunio neu'r Celfyddydau Perfformio, gan eu harwain i chwilio am le mewn prifysgol, neu brentisiaeth uwch. Mae llawer o sgiliau cyfryngau creadigol yn trosglwyddo'n dda i'r gweithle h.y. sgiliau cyfathrebu, creadigrwydd a datrys problemau.

## Asesiad

Asesir eich gwaith ar sail barhaus ffurfiol ac anffurfiol, gydag adborth llafar ac ysgrifenedig cyson gyda gradd. Asesir eich Prosiect mawr Terfynol fel Llwyddiant, Teilyngdod neu Ragoriaeth.

## Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol cysylltiedig â chyrsiau sy'n cynnwys casglu llyfr braslunio A3 yn ogystal â chasglu deunydd ysgrifennu sylfaenol gan gynnwys set o bensiliau lluniadu, rwber a miniwr.

## DULL ASTUDIO

FT

## LLEOLIAD

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

Coleg Afan - 0330 818 8100

## HYD Y CWRS

1Y